# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu*

### 68 Cosbau sy'n ymwneud â mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu

(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan adran 56 neu 57 yn agored i gosb nad yw'n fwy na £3,000.

(2) Ond nid yw person yn agored i gosb o dan yr adran hon mewn cysylltiad â methiant i gadw cofnodion neu eu storio'n ddiogel os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae'n rhesymol ofynnol ganddo iddynt gael eu profi, ac y byddai'r cofnodion wedi eu profi, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 68 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 68 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 68.